**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**15 GORFFENNAF 2015**

## ADRODDIAD ARBENNIG

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

# PROSIECT ISADEILEDD MAWR CYSYLLTIADAU FFERMYDD GWYNT GOGLEDD CYMRU

# YMATEB I GAIS AM GANIATÂD DATBLYGU

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad yn gofyn am gytundeb yr Aelodau i gamau gweithredu mewn perthynas â chyflwyno ymateb y Cyngor i'r prosiect isadeiledd mawr cenedlaethol uchod, sydd yn destun cais am ganiatâd datblygu sydd wedi cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio.

1.2 Efallai bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Prosiect Cysylltiadau Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru yn cynnwys cynigion ar gyfer llinell uwchben newydd 17cilomedr o hyd 132cilo folt rhwng is-orsaf casglwr newydd yng Nghoedwig Clocaenog a phwynt terfynol i'r de o Ffordd Glascoed, y B5381, Cefn Meiriadog. Mae'n cael ei gategoreiddio fel prosiect seilwaith o bwys cenedlaethol a bydd angen caniatâd datblygu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio 2008. Byddai'r llwybr arfaethedig yn croesi drwy Sir Ddinbych a Chonwy.

1.3 Mae llwybr y llinell uwchben a'r polyn terfynell yn cael ei ddangos ar y cynlluniau ar flaen yr adroddiad hwn, ac yn Atodiad A.

1.4 Cyflwynodd Manweb Scottish Power gais am ganiatâd datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio ar 20 Mawrth 2015. Derbyniodd yr Arolygiaeth Gynllunio y cais yn ffurfiol i'w ystyried ar 17 Ebrill 2015. Bydd y Cyngor yn cael eu gwahodd i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ffurfiol ac 'Adroddiad Effaith Leol' i'r Arolygiaeth Gynllunio, a chymryd rhan mewn Sesiynau Gwrandawiad yr Archwiliad. Mae Manweb Scottish Power hefyd wedi gofyn i'r Cyngor wneud Datganiad Tir Cyffredin.

1.5 Disgwylir i'r amserlen Arolygu gael ei chyhoeddi yng nghanol / ar ddiwedd mis Gorffennaf.

1.6 Oherwydd y terfyn amser a ragwelir ar gyfer cyflwyno sylwadau ysgrifenedig ffurfiol ac Adroddiad Effaith Leol, mae'n annhebygol y bydd cyfle i gyflwyno gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor Cynllunio cyn y dyddiad cau, ac felly bwriad yr adroddiad hwn yw:

- Gofyn i'r Aelodau gytuno ar fformat yr Adroddiad Effaith Leol drafft (ynghlwm fel Atodiad D).
- Cytuno i fersiwn derfynol o'r Adroddiad Effaith Leol gael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelodau Wardiau perthnasol.
- Gofyn am benderfyniad gan yr Aelodau ar y Sylwadau ffurfiol mae'r Cyngor yn dymuno eu cyflwyno mewn perthynas â'r cais.
- Enwebu Aelodau i gynrychioli'r Cyngor mewn Gwrandawiadau Archwiliad, pe bai hyn yw dymuniad y Pwyllgor.

### 2. CEFNDIR.

2.1 Efallai y bydd aelodau'n cofio bod adroddiadau blaenorol wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r prosiect hwn a chyflwynodd y Cyngor ymgynghoriad cyn gwneud cais ffurfiol i Scottish Power Manweb ym mis Mai 2014. Roedd yr ymateb yn nodi sylwadau technegol ar y deunydd ymgynghori a hefyd yn amlwg yn mynegi barn yr Aelodau y byddai llinellau uwchben yn cael effaith niweidiol sylweddol ar drigolion lleol, y dirwedd leol ac ar yr amgylchedd lleol.

2.2 Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 9 Medi 2014, cytunodd y Cyngor yn unfrydol ar syniad o

Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Joe Welch, Colin Hughes, Geraint Lloyd Williams, Meirick Lloyd Davies ac Eryl Williams. Roedd y Cynnig fel a ganlyn:

*"Mae arnom ni eisiau cefnogaeth y Cyngor i gael safiad cadarn i fynnu bod hyd gyfan cysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru yn cael ei osod o dan y ddaear".*

2.3 Felly, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r prosiect llinell uwchben.

2.4 Ym mis Rhagfyr 2014, penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio i'r Cyngor ymrwymo i Gytundeb Perfformiad Cynllunio (PPA) gyda Manweb Scottish Power ac i gymryd rhan yn y broses Archwilio unwaith y bydd cais am ganiatâd datblygu wedi ei gyflwyno. Mae swyddogion wedi cytuno ar Gytundeb Perfformiad Cynllunio mewn egwyddor â Manweb Scottish Power a fydd unwaith y bydd wedi ei gytuno, yn talu'r costau mewnol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn yr Archwiliad. .

2.5 Bydd y cyfarfod cyn archwiliad yn cael ei gynnal yng nghanol - diwedd Gorffennaf 2015 a fydd yn nodi dechrau'r cyfnod Archwilio. Nid yw'r amserlen archwilio wedi'i chyhoeddi eto, ond mae'r amserlenni yn cael eu rhagnodi gan y gyfraith, ac felly mae'n debygol bydd angen i'r sylwadau ysgrifenedig ffurfiol, Adroddiad Effaith Lleol y Cyngor ac unrhyw Ddatganiadau o Dir Cyffredin rhwng y Cyngor a'r datblygwr gael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio rywbryd ar ddiwedd mis Awst / dechrau mis Medi 2015, ac felly oherwydd toriad yr haf, efallai na fydd cyfle i gyflwyno gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor Cynllunio cyn y dyddiad cau.

2.6 Mae swyddogion wedi cychwyn ymgynghoriad mewnol ac wedi paratoi Adroddiad Effaith Leol drafft, sydd ynghlwm yn Atodiad D, ond oherwydd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad sydd eto i ddod i law, nid yw wedi bod yn bosibl i gwblhau'r Adroddiad Effaith Leol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

**3. MANYLION Y CAIS GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU**

3.1 Mae'r cais ar gyfer adeiladu, gosod, gweithredu a chynnal a chadw llinell 17cilomedr 132,000 folt (132kV) trydan uwchben y ddaear o fewn ffiniau gweinyddol Sir Ddinbych a Chonwy. Byddai'r llinell drydan yn ymestyn o is-orsaf casglwr arfaethedig yng Nghoedwig Clocaenog i bwynt terfynol yng Nghroesffordd Marli, i'r de o Ffordd Glascoed (B5381), ger Llanelwy. Mae'r llinell yn croesi i sir Conwy ger Henllan ac yn ôl i Sir Ddinbych yn Afon Elwy. Mae lleoliad y llwybr yn cael ei ddangos ar y cynllun lleoliad ynghlwm fel Atodiad A. Bydd cebl tanddaearol wedyn yn cysylltu o'r polyn terfynell i is-orsaf bresennol Scottish Power yn Llanelwy lle bydd y trydan yn cael ei allforio i'r rhwydwaith dosbarthu trydan.

3.2 Bydd y llinell uwchben 132kV arfaethedig yn cynnwys dargludyddion a gefnogir gan bolion pren dwbl. Ar y cyfan nid yw'r polion pren yn fwy na 470mm mewn diamedr a byddant yn amrywio rhwng 11m a 16.6m mewn uchder. Y rhychwant cyfartalog rhwng polion yw 79m. Mae'r polyn pren dwbl arfaethedig yn cael ei ddangos yn Atodiad B ac mae Atodiad C yn enghraifft montage ffotograffig a delwedd 'wireframe' o'r llinell uwchben arfaethedig yn ei lle.

3.3 Yn ychwanegol at y llinell drydan uwchben y ddaear, mae'r gwaith tir canlynol yn ffurfio rhan o'r cais am ganiatâd datblygu:

- Cyfansoddyn adeiladu dros dro ar Fferm Broadleys, A543, Sir Ddinbych a storfa dros dro neu 'ardaloedd storio' ar hyd yr aliniad;
- Pwyntiau mynediad i gerddwyr a cherbydau ar hyd yr aliniad llwybr ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw;
- Mesurau tirlunio ac ecolegol i adfer coed a llystyfiant arall sydd wedi cael eu tynnu yn ystod y gwaith adeiladu;
- Tirlunio i liniaru unrhyw effeithiau andwyol; a
- Gweithiau hanfodol eraill megis paratoi a chlirio'r safle, gwaith daear, newid y gwasanaethau presennol a mân waith ar y stryd.

3.4 Mae cyfyngiadau'r Ddeddf Cynllunio 2008 yng Nghymru yn golygu na all datblygiadau ategol, megis is-orsafoedd gael eu cynnwys yn y cais am ganiatâd datblygu ac felly mae angen caniatâd ar wahân o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Felly, mae'r is-orsaf casglwr arfaethedig yng Nghoedwig Clocaenog yn destun cais cynllunio ar wahân a gyflwynwyd i Gyngor Sir Ddinbych (Cyfeirnod cais 23/2014/1440). Nid yw'r cebl tanddaearol arfaethedig rhwng y polyn terfynell a'r is-orsaf bresennol yn Llanelwy chwaith yn ffurfio rhan o'r cais am ganiatâd datblygu ac yn lle hynny byddai'n cael ei osod o dan hawliau datblygu a ganiateir i ymgymerwyr statudol.

3.5 Yn ogystal â gofyn am ganiatâd datblygu ar gyfer y llinell drydan uwchlaw'r ddaear arfaethedig, mae'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft a gyflwynwyd gyda'r cais yn cynnwys darpariaethau yn gofyn am i bwerau ategol gael eu trosglwyddo i Manweb Scottish Power, gan gynnwys, ymhlith eraill:

- Gorchmynion Prynu Gorfodol.
- Cymhwyso ac addasu Rheoliadau Gwrychoedd 1997 - sy'n golygu ni fydd unrhyw ofyniad ychwanegol i gael caniatâd gan yr awdurdod cynllunio lleol i gael gwared ar wrychoedd lle mae'n angenrheidiol i wneud y datblygiad
- Pwerau priffyrdd a gwaith stryd - sy'n golygu bod y Gorchymyn yn trosglwyddo pwerau i'r ymgymerwr i newid cynllun y strydoedd, gan gynnwys newidiadau parhaol a dros dro, creu mynedfeydd newydd, addasu dros dro, gwyro neu gyfyngu ar y defnydd o strydoedd a hawliau tramwy cyhoeddus, pwerau i wneud gorchmynion rheoli traffig ac ati lle mae'n angenrheidiol i wneud y datblygiad heb yr angen i geisio caniatâd gan yr awdurdod priffyrdd lleol.

3.6 Gall y Cyngor hefyd roi sylwadau ar y darpariaethau drafft yn yr Adroddiad Effaith Leol.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Aelodau ystyried cynnwys yr Adroddiad Effaith Leol drafft ynghlwm ac i wneud penderfyniad ar y canlynol er mwyn:

- Cytuno i fersiwn derfynol o'r Adroddiad Effaith Leol sydd ynghlwm fel Atodiad D ac i'r Adroddiad effaith leol gael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelodau Wardiau perthnasol.
- Pleidleisio ar y Sylwadau ffurfiol mae'r Cyngor yn dymuno eu cyflwyno mewn perthynas â'r cais. (Pe bai'r Cyngor yn dymuno gwrthwynebu'r cynnig datblygu, bydd angen dyfynnu rhesymau cynllunio clir i'w cynnwys yn yr ymateb).
- Enwebu Aelodau i gynrychioli'r Cyngor mewn Gwrandawiadau Archwiliad, pe bai hyn yw dymuniad y Pwyllgor.